WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

GWEITHGAREDDAU CYFFREDINOL

## Y CYMORTH CYWIR AR YR AMSER CYWIR

Y cymorth cywir ar yr amser cywir yw thema rhaglen eang ei chwmpas sy'n cael ei chynnal ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu, sy'n dechrau ar 11 Tachwedd 2024. Cydlynwyd y rhaglen gan CWMPAS a CYSUR, y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ac eleni fe'i cynlluniwyd mewn ymateb i rai o'r themâu a'r materion diogelu sydd wedi dod i'r amlwg ar draws y rhanbarth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys dysgu a nodwyd gan adolygiadau ymarfer oedolion a phlant.

Mae uchafbwynt yr wythnos yn cynnwys cynhadledd ar gyfer ymarferwyr amlasiantaeth, a gynhelir yng Nghanolfan Medrus, Prifysgol Aberystwyth. Bydd y gynhadledd yn cynnwys cyflwyniadau a gweithdai gan brif siaradwyr ac yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau ymyrraeth gynnar a modelau adfer ar ôl trawma, ochr yn ochr â mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'r rhai sydd â phrofiad bywyd.

Yn ystod yr wythnos, byddwn hefyd yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweminarau a fydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth ac amlygu materion sy'n effeithio ar blant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae hyn yn cynnwys gweminar yn ymdrin â chwalu mythau ym maes rhannu gwybodaeth mewn gwaith diogelu amlasiantaeth. Bydd hefyd sesiwn rhannu gwybodaeth a hyrwyddo i gynnwys rhagolwg o ddogfen cymorth trothwy a chymhwysedd newydd CYSUR a cham nesaf yr hyfforddiant diogelu amlasiantaethol. Yn ogystal, byddwn hefyd yn cynnal gweminarau ar wersi thematig o adolygiadau ymarfer plant yng Nghymru ac adolygiad thematig o adolygiadau diogelu oedolion. Ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyn, bydd mewnbwn gan grwpiau trydydd sector a grwpiau annibynnol gyda digwyddiadau gan SHINE, yr NSPCC a Chymdeithas y Plant.

**I gael gwybodaeth lawn am ein holl ddigwyddiadau, cliciwch ar y dolenni cofrestru yn y rhaglen hon a sganiwch y codau QR i archebu lle ar y digwyddiadau.**

| | |
|---|---|
| DRWY'R WYTHNOS | GWEFAN: Gwybodaeth a Newyddion<br><br>Rhannu adnoddau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a themâu rhanbarthol |

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

| | |
|---|---|
| DRWY'R WYTHNOS | Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: Hyrwyddo a Rhannu Gwybodaeth<br><br>Rhannu negeseuon allweddol sy'n gysylltiedig â'r thema 'Y lle cywir, yr amser cywir', a hyrwyddo digwyddiadau rhanbarthol.<br><br>#SafeguardingWales #DiogeluCymru |

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD LLUN, 11 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**10:00am**

### Y cymorth cywir ar yr amser cywir i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Microsoft Teams, 10am–12pm

**Cyflwynydd: Paula McCreary**

Sesiwn rhannu gwybodaeth a hyrwyddo i gynnwys rhagolwg o ddogfen *cymorth trothwy a chymhwysedd newydd CYSUR* a cham nesaf yr hyfforddiant diogelu amlasiantaeth, sy'n cael ei ddatblygu i gefnogi ymarferwyr yn eu rolau diogelu, sy'n cynnwys gweithio gyda throthwyon ac asesu risg o niwed arwyddocaol.

Nodau:

1. Ystyried themâu sy'n dod i'r amlwg o hyfforddiant chwilfrydedd proffesiynol, sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar draws canolbarth a gorllewin Cymru
2. Nodi cysylltiadau rhwng trothwyon a themâu sy'n codi dro ar ôl tro o adolygiadau ymarfer
3. Cyflwyniad i'r ddogfen drothwy newydd
4. Trafod beth sy'n dod nesaf yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, gan gynnwys rhagolwg a chyflwyniad i hyfforddiant amlasiantaeth "y cymorth cywir ar yr adeg cywir"

I gofrestru, cliciwch yma: https://forms.office.com/e/izQtDdwiuv

## RHANBARTHOL

**2:00pm**

### CHWALU'R MYTHAU YM MAES RHANNU GWYBODAETH MEWN GWAITH DIOGELU AMLASIANTAETH

Microsoft Teams, 2pm–4pm

**Cyflwynydd: Dai Durbridge**

Bydd y digwyddiad ar-lein hwn yn darparu hyfforddiant diddorol ar rannu gwybodaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Deddfwriaeth diogelu data yng nghyd-destun diogelu, gyda chysylltiadau ag adolygiadau ymarfer plant rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru.
- Archwilio'r rhwystrau i rannu gwybodaeth – beth sy'n atal gweithwyr proffesiynol rhag trosglwyddo gwybodaeth i ofal cymdeithasol a chyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau pan fo pryderon.
- Canolbwyntio ar ardaloedd amwys lle mae pryderon yn dod i'r amlwg, ond lle nad yw'n glir bod y trothwy ar gyfer niwed sylweddol wedi'i gyrraedd.
- Golwg ar gael caniatâd. Pryd mae'n iawn rhannu heb ganiatâd? Bydd y weminar yn ymdrin â rhai o'r mythau am hyn.

I gofrestru, cliciwch yma: https://forms.office.com/e/PZkpdvz0CK

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD LLUN, 11 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**4:15pm**

### Gweithdy Gwrando, Codi Llais – NSPCC

Microsoft Teams, 4.15pm–5.15pm

**Cyflwynydd: Lil Dunn (NSPCC)**

Mae hanner miliwn o blant yn dioddef camdriniaeth ac esgeulustod bob blwyddyn yn y DU. Ond mae rhywbeth y gallwn ni i gyd ei wneud i newid hynny. Gwyddom, gyda'r gefnogaeth gywir, y gellir cadw pob plentyn yn ddiogel. Gallwn atal camdriniaeth, a hyd yn oed ei hatal rhag digwydd. Ond er mwyn gwneud hyn, mae angen inni gydweithio. Hyd yn oed os nad yw plant yn rhan fawr o'ch bywyd bob dydd, byddwch yn dal i rannu cymuned â nhw – ar eich stryd, wrth i chi deithio i'r gwaith neu yn y siopau. Mae gwybod sut i siarad ar eu rhan yn hanfodol.

Bydd hyfforddiant Gwrando, Codi Llais yn:

- eich helpu i ddeall sut i wrando a siarad ar ran plant
- dangos i chi â phwy i gysylltu os ydych yn pryderu am blentyn neu angen cefnogaeth eich hun
- eich grymuso i gefnogi plant yn eich cymuned

I gofrestru, cliciwch yma: **https://forms.office.com/e/KYGeZFptkb**

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**ALL DAY**

### HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD

## RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL

## Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin

**Delio â datgeliad – Ar-lein, 1pm–3pm ar 12 Tachwedd**

Amlinelliad o'r cwrs – Darparu dealltwriaeth o drais rhywiol, dangosyddion bod rhywun wedi profi trais rhywiol, a sut i ddelio â datgeliad. Bydd hyn yn ymgorffori eich polisïau, prosesau, a sut i gael mynediad at wasanaethau cymorth.

**Gwendidau – Ar-lein, 1pm–3pm ar 13 Tachwedd**

Amlinelliad o'r cwrs – Deall beth sy'n gwneud unigolyn yn agored i niwed, gan gynnwys dylanwad sylweddau, materion niwrowahanol, gwybod am yr ymyriadau a all helpu i gadw pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel, darparu dealltwriaeth o ddod yn weithredwr yn hytrach nag yn wyliwr.

**Gweithdai Ymwybyddiaeth o Aflonyddu Rhywiol (SHAW) – Ar-lein, 14 Tachwedd 1pm–3pm**

Amlinelliad o'r gweithdy – Deall beth yw aflonyddu rhywiol a thrais, gwybod beth yw'r deddfwriaeth sy'n ymdrin ag aflonyddu rhywiol, deall yr effaith y gall aflonyddu rhywiol ei chael ar ddioddefwyr, gwybod beth allai'r canlyniadau fod iddynt os bydd eu hymddygiad yn parhau, o ran gweithredu troseddol posibl ac mewn perthynas â'u gwaith, tenantiaethau, aelodaeth o grwpiau ac ati.

**Dewis Choice: Nodi ac ymateb i ddioddefwyr hŷn cam-drin teuluol sy'n oedolion – Ar-lein, 10am–12pm, 12 Tachwedd**

Amcanion y sesiwn hyfforddi a arweinir gan ymchwil yw:

- Cael mewnwelediad i ddeinameg gymhleth cam-drin teuluol yn ddiweddarach mewn bywyd, gan gynnwys tactegau pŵer a rheolaeth ac effaith dibyniaeth a chyd-ddibyniaeth
- Adnabod arwyddion ac effeithiau corfforol, emosiynol ac ymddygiadol trais teuluol oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd, gan gynnwys dangosyddion cynnil
- Archwilio technegau cyfathrebu effeithiol ar gyfer mynd at a chefnogi oedolion hŷn a allai fod yn dioddef trais teuluol oedolion, gyda phwyslais ar ymatebion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

**Er mwyn archebu lle, bydd angen i bobl wneud cais drwy'r tudalennau gwe Dysgu a Datblygu ar wefan Sir Gaerfyrddin.**

https://intranet/our-people/learning-and-development/social-care-wales-workforce-development-programme-scwwdp/core-training/

**Staff mewnol yn Sir Gaerfyrddin i archebu drwy blatfform Thinqi, gan archebu drwy eu cyfrif dysgu**

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD

## RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL

## Awdurdod Lleol Ceredigion

**Diogelu yn y gymuned – Stondinau ymwybyddiaeth**

· Llyfrgelloedd

· Corfforaethol – Canolfan Rheidol (ag aelod o staff): 10am – 4pm Staff Cymorth Gofal Cymdeithasol

· Corfforaethol – Penmorfa (ag aelod o staff) 10am – 4pm Staff Cymorth Gofal Cymdeithasol

· Canolfan Llesiant Llambed

· Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa (PenCIL)

**Digwyddiad lansio polisïau diogelu gwasanaethau darparwyr newydd i blant ac oedolion – lansio gweithdy hyfforddiant**

**Cyflwynwr/cyflwynwyr:** Nerys Lewis / Liz Upcott

**Fformat:** Timau yn gwahodd staff rheoli perthnasol, amlinelliad o ddyddiadau yn y dyfodol i staff rheng flaen eu harchebu trwy System Archebu Ceri

**Crynodeb:** Adolygu canllawiau wedi'u diweddaru

**Digwyddiadau ymwybyddiaeth ar y safle**

**Cyflwynwyr:** Rheolwyr Tîm Cascade (Gwasanaethau Gofal Preswyl / Cartref)

**Fformat:** Sgrymiau am 8am, 2pm ac 8pm, amlinelliad o ddyddiadau yn y dyfodol i staff rheng flaen archebu trwy System Archebu Ceri

**Crynodeb:** Adolygiad o ganllawiau wedi'u diweddaru, posteri a chanllawiau wedi'u hargraffu er gwybodaeth (cyn hyfforddiant)

## RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL

# Awdurdod Lleol Ceredigion (Parhad)

### Lansio cynllun MACE amlasiantaeth

**Cyflwynwyr:** Liz Upcott

**Fformat:** Mae timau'n gwahodd staff sy'n arweinwyr ymarfer perthnasol

**Crynodeb:** Adolygiad o fodel a chynllun, trafodaeth ar gyfranogiad a chyfrifoldebau timau lleol

### Cyfathrebu is-adrannol, corfforaethol a phartneriaid

- Seminarau gloywi 7 munud
- Neges ffocws dyddiol cymorth cywir amser cywir (trwy'r wythnos)
- Newyddion
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Gweminar Polisi Recriwtio Diogel

### Diogelu mewn Ysgolion: neges gan y Cyfarwyddwr

**Cyflwynwyr:** Tîm Cyfathrebu Mewnol Ceredigion

**Fformat:** Cylchlythyrau dyddiol, hunanddysgu

**Crynodeb:** Ffocws diogelu dyddiol gyda dolen berthnasol i ddeunydd cefnogi (ysgrifenedig a fideo)

### Seminar Aelodau Etholedig – Rôl y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

**Cyflwynwyr:** Audrey Somerton-Edwards (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)

**Fformat:** Seminar Galw Heibio, Gwasanaethau Democrataidd i'w drefnu'n uniongyrchol gyda'r aelodau

**Crynodeb:** Enghreifftiau uwchsgilio ac ymarfer i gryfhau ymgysylltiad aelodau â'u cymunedau

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD

## RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL

### Heddlu Dyfed–Powys

· **Enw'r digwyddiad:** Llinellau Cyffuriau a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant – disgyblion ysgolion uwchradd

· **Amseroedd:** Yn ystod y diwrnod ysgol ac yn ystod wythnos ddiogelu.

· **Enw'r cyflwynwyr:** Swyddogion Cyswllt Ysgolion Heddlu Dyfed–Powys (methu nodi enwau swyddogion ar hyn o bryd).

· **Crynodeb byr:** Mewnbynnau diogelu i'w darparu mewn lleoliadau uwchradd (Blwyddyn 7) gyda'r prif ffocws ar linellau cyffuriau a chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Bydd 'SafeCall' hefyd yn cael ei hyrwyddo o fewn lleoliadau ysgol a chymunedau lleol – gwybodaeth am SafeCall a gyflwynwyd yn flaenorol i CYSUR.

· **Fformat (ar-lein neu wyneb yn wyneb):** wyneb yn wyneb.

· **Sut i archebu lle:** Mewnol i swyddogion a staff yr heddlu.

Yn ogystal, mae Heddlu Dyfed–Powys yn bwriadu hyrwyddo cyfathrebu pellach mewn perthynas â gweithredu Gofal Cywir Person Cywir (RCRP).

### Awdurdod Lleol Sir Benfro

**Lansio ein modiwl ar-lein newydd** – Rheolaeth Orfodol

**Hyfforddiant Offeryn Goleuadau Traffig Brook** – Mae Offeryn Goleuadau Traffig Ymddygiad Rhywiol Brook a'i hyfforddiant, a gydnabyddir yn genedlaethol, yn darparu ymateb amlasiantaethol gweladwy iawn sy'n helpu gweithwyr proffesiynol i nodi, deall ac ymateb yn briodol i ymddygiadau rhywiol mewn pobl ifanc.

**Gweminar ar-lein y Samariaid – hunan-niwed; 10am – Dydd Mawrth, 12 Tachwedd 2024**
(Yn agored i unrhyw un yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru)

- Y cysylltiad rhwng iechyd emosiynol a hunan-niweidio.
- Hunan-niweidio fel ffactor risg ar gyfer hunanladdiad.
- Cefnogi rhywun sy'n hunan-niweidio.

Dolenni archebu :

Self Harm Awareness Webinar – Samaritans English / Self Harm Awareness Webinar – Samaritans Welsh

**Addysg bellach: Sesiynau hyfforddi staff Coleg Sir Benfro:**

- Astudiaeth Achos Arfer Gorau: Dileu Aflonyddu Rhywiol Cyfoedion
- Gweithdy TRACE
- E-ddysgu PREVENT
- Modiwlau diogelu addysg bellach

**Hyrwyddo pynciau ac Wythnos Genedlaethol Diogelu** – llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar-lein

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD

## RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dydd Llun 11 Tachwedd

10am–12.30pm Sefydliad Lucy Faithful yn cyflwyno sesiwn o'r enw 'Professionals Protect'. Professionals Protect. Sesiwn i weithwyr proffesiynol yn cyflwyno ffeithiau am gam-drin plant yn rhywiol a'n cyfrifoldeb yn y gweithle i atal cam-drin a chefnogi teuluoedd i gadw eu plant yn ddiogel. (Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn unig)

Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2024

11am–12pm Alexander Simpson (Rheolwr Gwasanaeth Hwb CAMHS Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a Bethan Thomas (Arweinydd Tîm CATT Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), a fydd yn rhoi trosolwg o ddarpariaeth Hwb CAMHS (gan gynnwys y broses atgyfeirio ac ystadegau), ynghyd â straeon cleifion. (Digwyddiad amlasiantaeth)

1pm–2pm – Joseph Thomas (Rheolwr Tîm Pwynt Cyswllt Unigol Iechyd Meddwl 111 Opsiwn 2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a Michelle Webber (Cydlynydd Gwasanaeth Pwynt Cyswllt Unigol Iechyd Meddwl 111 Opsiwn 2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda). Cyflwyno trosolwg o'r gwasanaeth, gan gynnwys ystadegau a chanlyniadau, a hefyd stori claf. (Digwyddiad amlasiantaeth)

2.30pm–3.15pm – Laura Tranter (Arweinydd Rhanbarthol Gweithredol y GIG ar gyfer Hunan-niwed ac Atal Hunanladdiad). Cyflwyno trosolwg cenedlaethol a rhanbarthol ar atal hunanladdiad a hunan-niwed, gan gynnwys y Cynllun Peilot Ymateb Cyflym i Hunanladdiad Tybiedig, y Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Cenedlaethol newydd ac e-ddysgu hunanladdiad. (Digwyddiad amlasiantaeth)

3.30pm–4.30pm Jodie Denniss (Ymarferydd Diogelu Oedolion Arbenigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda). Cyflwyno sesiwn ar y Dull 'Meddwl am y Teulu' (staff BIPHD yn unig)

Mae ffurflenni ar gyfer staff i gofrestru ar unrhyw un o'r sesiynau hyn, a fydd yn cael eu cyflwyno fel gweminar drwy MS Teams: https://forms.office.com/e/C8tisfE2mh

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD

## RHANBARTHOL – DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL

## Awdurdod Lleol Powys / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Sesiwn Ymwybyddiaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: 10am–12pm, Ar-lein trwy MS Teams
Siaradwr:Kiran Rehal – Cynghorydd Allgymorth Rhanbarthol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Bydd Kiran yn cyflwyno sesiwn i egluro pwrpas y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y gwasanaethau a'r cynhyrchion y mae'n eu darparu, a'r rhan y mae'n ei chwarae mewn recriwtio mwy diogel.
Bydd y sesiwn dwy awr yn cwmpasu:

· Y gwahanol lefelau o wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
· Pryd y bydd gweithiwr yn gymwys i gael gwiriad
· Gweithgaredd rheoledig
· Gwasanaeth Diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
· Rheolau hidlo
· Dyletswydd i atgyfeirio
· Gwneud atgyfeiriad o ansawdd da
· Holi ac ateb

**I archebu lle:** practice.development@powys.gov.uk

Prosiect Holly – 12.30pm–2.30pm, ar-lein trwy MS Teams

Mae Prosiect Holly yn wasanaeth cymorth annibynnol rhad ac am ddim i oroeswyr camfanteisio'n rhywiol ar blant a'u teuluoedd sy'n cael ei redeg gan oroeswyr camfanteisio'n rhywiol ar blant.
Mae'n lle diogel i'r rhai y mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn effeithio arnynt i gael cymorth a chyngor gan bobl sydd wedi profi trawma ac effaith y math hwn o gamfanteisio.
Nod Prosiect Holly yw helpu goroeswyr i ailadeiladu eu bywydau a chynnig gobaith iddynt ar gyfer y dyfodol.
**I archebu lle:** practice.development@powys.gov.uk

Byw Heb Ofn – 3pm–5pm, ar-lein trwy MS Teams
**I archebu lle:** practice.development@powys.gov.uk

Welsh Women's Aid—Speaker: Ann Williams

Nod y sesiwn hon yw cynnig sicrwydd bod y llinell gymorth yno i gefnogi pawb: dioddefwyr goroeswyr yn uniongyrchol, eu ffrindiau a'u teulu, a gweithwyr proffesiynol. Mae cefnogaeth a roddir i weithwyr proffesiynol yn gefnogaeth dwy ffordd gan ein bod yn cynnig cyngor ac awgrymiadau ar gyfer cyfeirio, argaeledd lloches ac ati ond hefyd efallai y bydd yr hyn y maent wedi'i weld neu ei glywed yn effeithio ar rai gweithwyr a bydd angen iddynt rannu'r llwyth cyfrinachol hwnnw. Mae'n hollbwysig nad yw datgeliadau'n cael eu hanwybyddu gan ein bod yn gwybod y gall canlyniadau hyn fod yn drychinebus ond ni ddylid disgwyl ychwaith i'ch cydweithwyr ymdrin â'r rhain heb gymorth. Dyna lle gall y llinell gymorth helpu.

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

| | |
|---|---|
| ALL DAY | HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH<br>Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram |

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru • Mid and West Wales Safeguarding Board

## RHANBARTHOL

**10.00am**

**ADOLYGIAD THEMATIG O ADOLYGIADAU DIOGELU OEDOLION**

**Microsoft Teams: 10am–12pm**

**Cyflwynydd: Yr Athro Michael Preston-Shoot**

Mae'r weminar hon ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr y mae eu rolau a'u cyfrifoldebau'n cynnwys diogelu oedolion sydd mewn perygl. Bydd y weminar yn tynnu ar yr hyn a ddysgwyd o 652 o adolygiadau diogelu oedolion yn Lloegr. Bydd yn nodi'r hyn a ddysgwyd am y broses o gomisiynu, cynnal a chwblhau adolygiadau. Bydd yn cyflwyno canfyddiadau meintiol ac ansoddol am arferion diogelu effeithiol a diffygion. Bydd y cyfranogwyr yn cael cyfle i ystyried perthnasedd canfyddiadau'r adolygiad, yng nghyd-destun arferion diogelu oedolion yng Nghymru.

**I archebu, cliciwch yma:** https://forms.office.com/e/Mc8hRJBv4v

## RHANBARTHOL

**2:00pm**

**GWERSI THEMATIG O ADOLYGIADAU YMRFER PLANT, YMCHWIL AC ADRODDIADAU AROLYGU AMLASIANTAETH YNG NGHYMRU**

**Microsoft Teams: 2:00pm—4:00pm**

**Cyflwynydd: Dr Donna Peach a Dr Holly Gordon**

**Bydd y seminar ar-lein hon yn ystyried ac yn cyflwyno themâu a negeseuon allweddol o adolygiadau ymarfer plant a gynhaliwyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn y blynyddoedd diwethaf, ochr yn ochr â'r ymchwil a wnaed gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, *Risg, Ymateb ac Adolygu*:*Diogelu Amlasiantaeth, Dadansoddiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru.* Bydd hefyd yn ystyried canfyddiadau allweddol o adroddiadau arolygu amlasiantaeth cenedlaethol diweddar a gynhaliwyd yng Nghymru, gan gynnwys yr *Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant yng Nghymru a'r Cyd-arolygiad o Drefniadau Amddiffyn Plant 2019-2024 (JICPA)*, a gynhaliwyd gan AGC, Estyn ac AGIC.Bydd y sesiwn yn ystyried y goblygiadau i ymarferwyr a rheolwyr amlasiantaeth yn eu rolau diogelu plant ac yn hwyluso peth amser trafod myfyriol.**

**I archebu, cliciwch yma:** https://forms.office.com/e/TVM9Efc55t

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD

**RHANBARTHOL**

**4:15pm**

## SESIWN WYBODAETH SIARAD PANTS– NSPCC

Microsoft Teams, 4:15pm-5:15:pm

**Cyflwynydd: Lil Dunn (NSPCC)**

Mae ymgyrch Siarad PANTS wedi'i hanelu at weithwyr addysg proffesiynol, athrawon, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant rhwng tair ac unarddeg mlwydd oed, i gael sgyrsiau syml sy'n briodol i oedran y plant a all helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol. Mae'r sesiwn wybodaeth yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall sut mae ymgyrch Siarad PANTS yn gweithio ac ar yr un pryd hefyd yn rhannu'r amrediad eang o adnoddau sydd ar gael i'w defnyddio.

Bydd y sesiwn yn cynnwys gwybodaeth am nod ymgyrch Siarad PANTS, canllawiau addysgu, cynnwys newydd ar y blynyddoedd cynnar i blant rhwng tair a phum mlwydd oed ac ar gyfer plant rhwng saith ac unarddeg mlwydd oed, pecyn adnoddau Siarad PANTS ochr yn ochr â chynnwys newydd ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anabledd (AAAA), anghenion cymorth ychwanegol a chymorth ychwanegol ar gyfer dysgu, yn ogystal ag adnoddau ychwanegol eraill, gan gynnwys Makaton.

I gofrestru, cliciwch yma: **https://forms.office.com/e/0SW9r9eE7A**

**Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

**ALL DAY**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD IAU, 14 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

10:00am

### Cynhadledd: Cymorth cywir ar yr amser cywir

10am hyd at 4pm Canolfan Gynadledda Medrus, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3BY

Yn unol â'r thema ranbarthol eleni, Y lle cywir ar yr adeg cywir, bydd Awdurdod Lleol Ceredigion yn cynnal cynhadledd wyneb yn wyneb ddydd Iau 14 Tachwedd rhwng 10am a 4pm (cofrestru 9am). *Sylwch fod hwn yn ddigwyddiad wyneb yn wyneb.*

**Gweithdai yn cynnwys:**

- Keith Moultrie – Datblygu Gwasanaethau i Ddiwallu Anghenion Teuluoedd
- Jonny Matthew – Model Adfer ar ôl Trawma: Trefniadau mewn Ymarfer
- Mandy Miranda – Hyfforddiant Realiti Rhithwir ar gyfer Ymarfer sy'n Wybodus ynghylch Trawma
- Michelle Pooley – Straeon Goroeswyr: Arbenigwr trwy Brofiad

Anfonwch e-bost at : conference24@ceredigion.gov.uk

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

ALL DAY

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram

WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2024

# DIGWYDDIADUR

DYDD GWENER, 15 TACHWEDD

## RHANBARTHOL

**10:00am**

**Diogelu Pobl Ifanc Drawsryweddol rhag Camfanteisio**
**Microsoft Teams: 10am–11.30am**

Cyflwynydd: **Holly Sayce, Swyddog Atal dros Gymru, Cymdeithas y Plant**

Bydd y sesiwn hon yn archwilio sut y gall rhwystrau mewn cymdeithas ein harwain at fethu ag amddiffyn pobl ifanc drawsrywiol ac anneuaidd rhag camfanteisio a niwed, a beth allwn ni ei wneud i oresgyn y rhwystrau yn ein hymarfer ac yn ein systemau. Bydd hefyd yn ceisio hyrwyddo dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddeall ac ymateb i gamfanteisio a cham-drin, ac archwilio'r risgiau penodol a wynebir gan blant a phobl ifanc drawsryweddol.

I gofrestru, cliciwch yma: https://forms.office.com/e/S3vFqUaWyS

## RHANBARTHOL

**2:00pm**

**Deall Spina Bifida a Hydroceffalws**
Microsoft Teams: 2pm–3.30pm

**Cyflwynwyr:** Kate Steele, Prif Swyddog Gweithredol SHINE, a Sian Prince, Rheolwr Cymru, SHINE Cymru.

Bydd y digwyddiad ar-lein hwn yn cael ei redeg gan SHINE Cymru ac yn cynnig cyflwyniad i spina bifida a hydroceffalws gyda dull astudiaeth achos i fynd i'r afael â thema 'y cymorth cywir ar yr amser cywir'.

I gofrestru, cliciwch yma : https://forms.office.com/e/i7XDGXqx1B

## Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**ALL DAY**

HYRWYDDO CYFFREDINOL A RHANNU GWYBODAETH

Negeseuon i'w rhannu yn gysylltiedig â themâu allweddol a nodwyd a digwyddiadau rhanbarthol trwy Facebook, Twitter ac Instagram